# Adroddiad Blynyddol Cynghorydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (BCBC)

**Y Cynghorydd Alex Williams** **Ward: Pencoed a Phen-prysg**

**Plaid: Annibynnol / Cynghrair Democrataidd**

Mae'r adroddiad hwn yn nodi fy ngweithgareddau allweddol ar gyfer y cyfnod 5 Mai 2022 - 30 Mehefin 2023. Fe'i darperir er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid at unrhyw ddiben arall.

* Safbwyntiau'r Cynghorydd yw'r rhai a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid ydynt o reidrwydd yn adlewyrchu barn Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr. *

**<u>Rôl a Chyfrifoldebau</u>**

Cefais fy ethol i Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr i gynrychioli Pencoed a Phen-prysg ar 5 Mai 2022. Rwyf wedi ymgymryd ag amrywiaeth o rolau o fewn y Cyngor eleni. Yn ogystal â'r Cyngor Llawn, rwyf yn aelod o nifer o Bwyllgorau a chefais fy mhenodi'n Gadeirydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Corfforaethol; Cadeirydd y Pwyllgor Craffu a Throsolwg 1; ac yn aelod o'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

**<u>Cyngor Llawn</u>**

Cafwyd 13 cyfarfod ac yn ystod y cyfnod hwn rwyf wedi:

- holi Arweinydd y Cyngor a oedd y weinyddiaeth yn hyderus o gyflawni ymrwymiadau ei maniffesto ar amser ac o fewn y gyllideb;
- cwestiynu'r Aelod Cabinet dros Gymunedau ar berfformiad rheoli gwastraff ac ailgylchu yn y Fwrdeistref Sirol;
- cynnig trafodaeth ar y Polisi Derbyn i Ysgolion a'r Polisi Teithio gan Ddysgwyr sy'n ymwneud ag addysg cyfrwng Cymraeg.
- cyd-gynnig trafodaeth yn cefnogi codiad cyflog wedi'i ariannu'n llawn i weithwyr lywodraeth leol ac ysgolion.
- cwestiynu'r Aelod Cabinet dros Gymunedau ar y potensial ar gyfer tynnu cymorthdaliadau bysiau yn ôl a'i effaith ar drigolion ym Mhencoed a Heol-y-Cyw sy'n defnyddio'r gwasanaeth.

I gael rhagor o wybodaeth am waith Cyngor Llawn Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, cliciwch yma.

**<u>Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Corfforaethol</u>**

Cynhaliwyd 8 cyfarfod o'r Pwyllgor ac mae'r materion a drafodwyd yn cynnwys:

- Gwasanaethau Ailgylchu a Gwastraff ar ôl 2024
- Adroddiad Blynyddol y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant
- Llety Dros Dro
- Cyflwyno Cynllun Taliad Costau Byw
- Ailddatblygu Neuadd y Dref Maesteg
- Y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig
- Gweithlu, Recriwtio a Dargadw
- Grant Cyfleusterau i'r Anabl

I gael rhagor o wybodaeth am waith y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Corfforaethol, cliciwch yma.

**Pwyllgor Craffu a Throsolwg 1**

Cynhaliwyd 6 chyfarfod o'r Pwyllgor ac mae'r materion a drafodwyd yn cynnwys:

- Presenoldeb Disgyblion, Gwaharddiadau, Iechyd a Diogelu
- Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg
- Y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig
- Adroddiad Craffu - Consortiwm Canolbarth y De
- Cwricwlwm i Gymru
- Cynllun Strategol y Gyfarwyddiaeth Addysg a Chymorth i Deuluoedd 2023 - 2026

I gael rhagor o wybodaeth am waith Pwyllgor Craffu a Throsolwg 1, cliciwch yma.

**Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio**

Fel Aelod o Bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio'r Cyngor, rydw i a fy nghydweithwyr yn gyfrifol am adolygu fframweithiau llywodraethu, asesu perfformiad, rheoli risg a rheoli'r Cyngor a goruchwylio'r prosesau adrodd ariannol a llywodraethu blynyddol. Bu 7 cyfarfod o'r Pwyllgor. I gael rhagor o wybodaeth am waith y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, cliciwch yma.

**Presenoldeb**

Yn y 34 cyfarfod y bu disgwyl i mi eu mynychu ers fy ethol ar 5 Mai 2022, mae gennyf gofnod presenoldeb o 100%.

**Atgyfeiriadau a Datblygu Aelodau**

Rwyf wedi cefnogi trigolion ward Pencoed a Phen-prysg ar amrywiaeth o faterion ac wedi codi 306 ymholiad gan etholwyr yn ffurfiol gyda'r Cyngor. Mae hyn yn ogystal â chysylltu'n ffurfiol â sefydliadau eraill ar eich rhan ac ymdrin yn anffurfiol â dwsinau o faterion eraill yr ydych wedi gofyn i mi eich helpu i'w datrys.

Er mwyn fy ngalluogi i gyflawni fy rôl fel eich cynrychiolydd, rwyf wedi mynychu nifer o Weithgareddau Datblygu Aelodau sydd wedi fy helpu i sicrhau bod fy ngwybodaeth am faterion cenedlaethol a lleol sy'n effeithio ar y Cyngor a fy ward yn cael ei chynnal.

Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am fy rolau, cyfrifoldebau a gweithgareddau trwy glicio yma.

**Gweithgarwch yn yr Etholaeth**

Mae'r Cyngor yn darparu mwy na 800 o wasanaethau ac mae rôl Cynghorydd Bwrdeistref Sirol yn amrywiol. O'r 300+ o atgyfeiriadau yr wyf wedi'u gwneud ar ran trigolion Pencoed a Phen-prysg, rwyf wedi ceisio cefnogi aelodau'r cyhoedd ar faterion yn amrywio o:-

- Gofal Cymdeithasol i Oedolion a Phlant a Diogelu
- Addysg a Chymorth i Deuluoedd, Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol, Anghenion Dysgu Ychwanegol a darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg
- Rheolaeth Gwastraff, Ailgylchu, Tipio Anghyfreithlon a Baw Cŵn
- Priffyrdd a Chludiant gan gynnwys gosod wynebau newydd, tyllau yn y ffyrdd, goryrru, parcio, teithio llesol, diogelwch ar y ffyrdd, goleuadau stryd ac arwyddion
- Grantiau Tai Cymdeithasol a Chyfleusterau i'r Anabl
- Parciau a Meysydd Chwarae

- Hawliau Tramwy
- Cynllunio a Gorfodaeth Cynllunio
- Mannau Gwyrdd – Torri gwair a Gorchmynion Cadw Coed
- Llifogydd a Draenio
- Y Dreth Gyngor a Thaliadau Costau Byw
- Materion Rheoleiddiol gan gynnwys Llygredd Sŵn; Iechyd yr Amgylchedd; Diogelwch Tân
- Ymddygiad Gwrthgymdeithasol
- Gwasanaethau Profedigaeth

Am ran o'r cyfnod adrodd, roeddwn i'n Llywodraethwr Ysgol Gyfun Pencoed nes i fy nghyfnod yn y swydd ddod i ben.

Rwyf hefyd yn Aelod o Bwyllgor Clwb Rygbi Heol-y-Cyw ac yn Drysorydd Neuadd Lesiant y Glowyr Pencoed.

Rwyf hefyd wedi cynnal nifer o gyngherddau elusennol ar y cyd â phreswylwyr ar ran Apêl Ddyngarol Wcráin, Gofal Canser Macmillan a Chanolfan Ganser Felindre.

**Mentrau a Gweithgareddau Arbennig**

Ymhlith y materion allweddol sy'n effeithio ar Ward Pencoed a Phen-prysg yr wyf wedi bod yn cefnogi trigolion ac yn gweithio gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr arnynt mae:

- Yr uchelgais gwerth miliynau o bunnoedd i adfywio canol tref Pencoed; deuoli Pont Ffordd Pen-prysg; cau'r groesfan rheilffordd; a sicrhau bod unrhyw foratoriwm ar ddatblygu i'r gorllewin o'r rheilffordd yn parhau yn ei le hyd nes y bydd Heol Hendre yn cael ei lledu a mwynderau cyhoeddus Pencoed yn gwella.
- Materion yn ymwneud â'r ardal codi/gollwng yn Ysgol Gynradd Pencoed.
- Materion cynllunio yn ymwneud â datblygiad mawr i'r dwyrain o Bencoed
- Materion parhaus gyda'r Cyfamodau Hamdden ar dir yng Nghlwb Rygbi Pencoed sydd â goblygiadau posibl ar Foderneiddio Ysgolion.
- Trosglwyddo Asedau Cymunedol yng Nghlwb Rygbi Heol-y-Cyw.
- Apeliadau Cynllunio yn Rhiwceiliog.

**Gweithgareddau/Materion Eraill**

Yn rhinwedd fy swydd fel Cadeirydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Corfforaethol, rwy'n eistedd ar y Panel Asesu Perfformiad Corfforaethol, y Panel Aelodau Gofal Cymdeithasol a'r Panel Cyfrifoldeb a Gwerthuso Cyllideb.

Yn rhinwedd fy swydd fel Cadeirydd Pwyllgor Craffu a Throsolwg 1, rwy'n eistedd ar y Grŵp Gwella Ysgolion.

Rwyf hefyd yn mynychu Panel Ymddygiad Gwrthgymdeithasol Pencoed.

**Cynghorydd:** Alex Williams **Dyddiad:** 30/06/23